

16/07/2020

Annwyl Bennaeth

Gyda blwyddyn addysgol tra gwahanol yn dod i ben, hoffwn, unwaith eto, gydnabod y gwaith sylweddol a wnaed gennych chi a'ch cyd-weithwyr wrth i chi agor yr ysgol i ragor o ddysgwyr yn yr wythnosau diwethaf. Mae datblygu a gweithredu strategaethau i ofalu am iechyd a lles eich staff a'ch pobl ifanc yn gyflawniad aruthrol. Rwy'n ymwybodol o'r gwaith a'r cynllunio a aeth i mewn i groesawu disgyblion yn ôl i ail gydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer mis Medi.

Ochr yn ochr â'r amryfal heriau rydych wedi eu hwynebu, mae'r wythnosau diwethaf o'r tymor hwn hefyd wedi bod yn gyfle i chi ymgysylltu ac ail-gadarnhau y berthynas gadarnhaol o fewn cymuned yr ysgol. Mae gofalu am iechyd a lles dysgwyr, staff ac oedolion ar safleoedd ysgol wedi bod yn flaenoriaeth wrth i chi roi eich cynlluniau ar waith. Mae arweinwyr ysgolion, staff, llywodraethwyr a theuluoedd wedi gwneud dychwelyd i'r ysgol yn brofiad cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Cafwyd adborth hynod gadarnhaol gan blant a'u rhieni. Hyfryd ac ysbrydoledig yw gweld a chlywed llawenydd ein plant a'n pobl ifanc wrth iddynt ddychwelyd i'w lleoliadau cyfarwydd a gweld eu ffrindiau unwaith eto. Mae'n glir na fydd y sefyllfa yr ydym ynddi yn eu digalonni.

Gwerthfawrogir yn ddiffuant eich cefnogaeth a'ch ymrwymiad parhaus i

Dear Headteacher

At the end of what has been a very different educational year, may I once again take this opportunity to acknowledge the substantial work undertaken by yourselves, and your colleagues, in opening the school to more learners in the past few weeks. Developing and implementing strategies to look after the health and well-being of your staff and young people is a tremendous achievement. I am aware of the work and planning involved in welcoming pupils back to check in, catch up and prepare for September.

Alongside the various challenges you have encountered, the last weeks of this term have also allowed you to re-engage and reaffirm the positive relationship within the school community. Putting plans in place has involved prioritising the health and well-being of learners, staff and adults on school sites. School leaders, staff, governors and families have made the return to school a positive experience for children and young people. The feedback from children and their parents has been extremely positive. It is both pleasing and inspirational to see and hear our children and young people's happiness as they return to their familiar settings and see their friends once again. It is evident that they are not defeated by the current situation.

Your support is sincerely appreciated, as is your continued commitment to collaboration



gydweithio a chydweithredu. Cynhaliwyd trafodaethau adeiladol a byddwn yn parhau i weithio gyda chyd-weithwyr ar draws y rhanbarth wrth i ni symud i'r 'normal newydd' yn nhymor yr hydref.

Cydnabyddwn yn llwyr yr heriau sylweddol sy'n eich wynebu o hyd, yn enwedig wrth i chi baratoi i agor i bob disgybl ym Medi. Byddwch yn dawel eich meddwl y byddwn ni'n parhau i flaenoriaethu cymorth i chi a'ch staff addysgu.

Ym mis Medi, bydd angen i ysgolion bwysu a mesur ffitrwydd eu disgyblion i ddysgu cyn mynd ati i gyflwyno dysgu newydd. Er mwyn helpu ysgolion gyda'u paratoadau neu eu dull gweithredu i sicrhau dysgu i bob disgybl, bydd GwE a'r chwe awdurdod lleol yn darparu adnodd a fydd yn canolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar dair gydran sy'n cyd-berthyn. Bydd y rhain yn gymorth i roi sylw i ffitrwydd disgyblion i ddysgu:

- Lles emosiynol a meddyliol
- Iechyd a ffitrwydd corfforol
- Sgiliau craidd rhifedd a llythrennedd, dysgu i ddysgu, sgiliau annibyniaeth.

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i geisio cael cyllid ychwanegol i Ogledd Cymru i helpu targedu y dysgwyr hynny fydd â'r angen mwyaf. Bwriedir i hyn ategu eich dyraniad o'r £29 miliwn y bydd y Llywodraeth yn ei ddyrannu'n fuan i chi. Cewch wybod a fuon ni'n llwyddiannus neu beidio ym mis Medi.

and cooperation. Constructive discussions have taken place and we will continue to work with colleagues region-wide as we move to the 'new normal' in the Autumn term.

We fully appreciate the considerable challenges ahead, especially as you prepare to open to all pupils in September. Rest assured that we will continue to prioritise support for you and your teaching staff.

In September, schools will need to assess the fitness of learning of their pupils before introducing new learning. To help school's preparedness or approach to ensure learning for all pupils, GwE and the six local authorities will provide a resource that will initially focus on three inter-related components that would help address pupils' fitness for learning skills:

- Emotional and mental well-being;
- Health and physical fitness; and
- Core skills of numeracy and literacy, learning to learn, independence skills.

We are working with Welsh Government to try and get extra funding into North Wales to help target those learners who will have the greatest needs. The intention is that this will complement your allocation of the £29 million that Welsh Government will be allocating to you soon. We will let you know if we have been successful in our approach in September.



Gwasanaeth Effeithiolrwydd a
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru
Regional School Effectiveness &
Improvement Service for North Wales

Os bydd arnoch angen trafod unrhyw beth dros yr Haf, mae croeso i chi gysylltu â naill ai Arweinydd Craidd eich Awdurdod Lleol, YCG cyswllt eich ysgol neu Marc B Hughes/Elfyn V Jones.

Gyda diolch diffuant am bopeth yr ydych chi, a'ch staff a chymuned yr ysgol, yn ei wneud.

Dymuniadau gorau i chi, cadwch yn ddiogel a gobeithio y cewch chi seibiant haeddiannol dros yr Haf.

Yn gywir

Should you wish to discuss anything over the summer, please contact either your Local Authority's Core Lead, your school's link adviser or Marc B Hughes/Elfyn V Jones.

A sincere thank you for all that you, your staff, and school community, are doing.

Best wishes to you all, keep safe and enjoy a well-deserved break over the summer.

Yours sincerely

Arwyn H Thomas

Mr Arwyn Thomas
Rheolwr Gyfarwyddwr GwE / GwE Managing Director

